OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2672 (Cy.236)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*6 Hydref 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Hydref 2008*
Yn dod i rym - -	*30 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1), (2), (4) a (4A), 64(3), 65(4), 143(1) a (2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freinir bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Hydref 2008 ond mae'r diwygiadau a nodir yn Rheoliad 2 yn cael effaith o 1 Ebrill 2005 ymlaen.

Diwygio Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005

2. Diwygir Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 fel a ganlyn—

(a) yn lle Rheoliad 8 rhodder —

"**8.**—(1) Where—

(a) British Telecommunications plc occupies, or if it is unoccupied, owns any hereditament which comprises posts, wires, fibres, cables, ducts, telephone kiosks, towers, masts, switching equipment, or other equipment, or easements or wayleaves, being property used for the monitoring, processing or transmission of communications or other signals for the provision of electronic communications services;

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.